GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Porth Llythyrau Cleifion Digidol ar gyfer Apwyntiadau Cleifion a Negeseuon Testun Atgoffa ar gyfer ffonau symudol

Cwestiynau Cyffredin

## Cynnwys


Yn cyflwyno'r Porth i Gleifion a Negeseuon Atgoffa am Apwyntiadau ........ 4

1. Ynglŷn â Negeseuon Atgoffa am Apwyntiadau ........ 4

1.1 A oes modd i mi ymateb i neges destun er mwyn canslo neu aildrefnu fy apwyntiad? ........ 4

1.2 Sut ydw i'n gwybod bod y neges wedi dod gan y GIG? ........ 5

1.3 A godir tâl arnaf am ymateb i'r neges? ........ 5

1.4 Sut alla' i stopio derbyn negeseuon atgoffa trwy neges destun? ........ 5

2.0 Ynglŷn â'r Porth i Gleifion ........ 5

3.0 Manteision a Nodweddion defnyddio'r Porth i Gleifion ........ 6

3.0 Defnyddio'r Porth i Gleifion ........ 7

3.1 A oes unrhyw gymorth ar gael i mi ddefnyddio'r Porth i Gleifion? ........ 7

3.2 A oes angen y rhyngrwyd/WiFi arnaf i weld fy llythyr? ........ 7

3.3 Sut alla' i weld fy llythyr? ........ 7

3.4 A oes modd i mi roi gwybod i sefydliad y GIG os na allaf fynychu fy apwyntiad trwy'r porth i gleifion? ........ 7

Sut mae modd i mi ychwanegu'r apwyntiad at fy nghalendr digidol? ........ 7

3.5 Sut ydw i'n argraffu llythyr? ........ 7

3.6 Sut alla' i e-bostio copi ataf i fy hun neu dderbynnydd arall? ........ 8

3.7 Sut ydw i'n cael mynediad at fanylion fy apwyntiad o'r trosolwg ........ 8

apwyntiadau? ........ 8

3.8 Beth yw lleoliad? ........ 8

3.9 Beth yw'r tab 'Cyn i chi Fynychu'? ........ 8

3.10 Beth yw GIG Cymru? ........ 8

3.11 Sut alla' i gael mynediad at GIG Cymru? ........ 8

3.12 Am ba mor hir ar ôl fy apwyntiad fyddaf yn gallu gweld y ........ 8

llythyr? ........ 8

3.13 Pryd fydd llythyr ffisegol yn cael ei anfon allan os na fyddaf yn edrych ar fy llythyr digidol? ........ 9

3.14 Rydw i wedi colli'r ddolen i'r porth i gleifion; sut fyddaf yn cofio dyddiad fy apwyntiad? ........ 9

3.15 Rydw i'n derbyn llythyrau gan fwy nag un Bwrdd Iechyd, a fydd angen mwy nag un cyfrif i weld fy llythyrau gan Fyrddau Iechyd gwahanol? ........ 9

4.0 Cofrestru ar gyfer y Porth i Gleifion ........ 9

4.1 Sut ydw i'n cofrestru ar gyfer y porth i gleifion? ........ 9

4.2 Beth yw'r manteision sydd ynghlwm wrth gofrestru ar gyfer y porth i gleifion? ........ 9

4.3 A oes rhaid i mi gofrestru ar gyfer y porth i gleifion? ........ 10
4.4 Ble alla' i weld fy apwyntiadau hanesyddol pan fyddaf wedi cofrestru? ........ 10
4.5 Beth yw'r sgrin hafan? ........ 10
5.0 Diogelwch ........ 10
5.1 Pa mor ddiogel yw'r porth i gleifion? ........ 10
5.2 Sut alla' i newid fy nghyfrinair ar y porth i gleifion? ........ 11
5.3 Alla' i optio allan o dderbyn gwahoddiadau digidol? ........ 11
5.4 Os yw fy ffôn gan rywun arall, a yw'n bosibl iddynt weld fy llythyr? ........ 11
5.5 Sut yr ymdrinnir â'm data? ........ 11

# Yn cyflwyno'r Porth i Gleifion a Negeseuon Atgoffa am Apwyntiadau

Mae negeseuon atgoffa am apwyntiadau dros neges destun yn cael eu defnyddio yn y Bwrdd Iechyd ers sawl blwyddyn. Rydym wedi cyflwyno system newydd sy'n gallu cyflwyno gwell negeseuon atgoffa am apwyntiadau a llythyrau digidol trwy'r Porth i Gleifion.

Bydd hyn yn caniatáu i ni:

- Wella sut rydym yn cyfathrebu â chi
- Rhoi'r opsiwn i chi dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig neu'n ddwyieithog
- Anfon llythyrau atoch yn gynt
- Lleihau dryswch ynghylch llythyrau coll neu lythyrau sy'n cyrraedd yn y drefn anghywir
- Arbed arian i'r GIG trwy leihau papur a chostau postio.
- Lleihau ein heffaith amgylcheddol

Cadwch eich manylion cyswllt yn gyfredol fel y gallwn anfon negeseuon atgoffa a llythyrau digidol atoch. Os byddai'n well gennych dderbyn llythyrau a negeseuon atgoffa yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig, rhowch wybod i ni. Bydd hyn yn lleihau costau ac yn atal anfon negeseuon a llythyrau dwyieithog, sy'n gallu golygu bod negeseuon testun a llythyrau'n hirach.

Bydd angen i chi ddiweddaru neu gadarnhau rhif eich ffôn symudol yn eich apwyntiad neu drwy siarad ag aelod o staff trwy'r rhif ffôn ar eich llythyr

## 1. Ynglŷn â Negeseuon Atgoffa am Apwyntiadau

Pan gaiff eich apwyntiad ei drefnu, byddwch yn derbyn neges destun yn cadarnhau dyddiad, amser a lleoliad eich apwyntiad. Cyn eich apwyntiad, byddwch yn derbyn neges destun i'ch atgoffa amdano.

Trwy'r neges destun, gallwch ganslo neu aildrefnu eich apwyntiad yn ôl yr angen, pan fyddwch yn derbyn y neges i'ch atgoffa am eich apwyntiad.

### 1.1 A oes modd i mi ymateb i neges destun er mwyn canslo neu aildrefnu fy apwyntiad?

Er mwyn ymateb i'r neges, mae'n rhaid i chi ymateb gyda'r cod pedwar digid sydd yn ymyl yr opsiynau. Er enghraifft, y cod pedwar digid yn ymyl

AILDREFNU yw '2751', felly byddech yn ymateb i'r neges gydag 'AILDREFNU 2751'

### 1.2 Sut ydw i'n gwybod bod y neges wedi dod gan y GIG?

Byddwch yn derbyn negeseuon testun oddi wrth: ‘GIG BIPAB' neu rif ffôn symudol gyda manylion eich apwyntiad. Bydd yr holl negeseuon yn cynnwys 'Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan' neu 'BIPAB'.

Ni fyddai'r GIG byth yn gofyn i chi dalu nac i ddarparu manylion personol trwy ymateb i neges destun.

Os byddwch yn derbyn neges sy'n peri pryder i chi, peidiwch ag ymateb na chlicio ar unrhyw ddolenni. Os bydd angen i chi wirio apwyntiad, dylech gysylltu â'r rhif ffôn ar eich llythyr apwyntiad. Bydd y neges a gewch yn rhoi'r opsiwn i chi ymateb os bydd angen i chi aildrefnu neu ganslo eich apwyntiad.

### 1.3 A godir tâl arnaf am ymateb i'r neges?

Bydd ymatebion neges destun yn rhad ac am ddim os oes gennych fwndel neges destun gyda'ch darparwr. Fel arall, codir tâl arnoch ar gyfradd safonol eich darparwr.

### 1.4 Sut alla' i stopio derbyn negeseuon atgoffa trwy neges destun?

Gallwch optio allan o negeseuon testun ar unrhyw adeg trwy siarad ag aelod o staff pan fyddwch yn mynd i'ch apwyntiad neu gallwch gysylltu ar y rhif ffôn ar y neges destun yr ydych wedi'i derbyn.

## 2.0 Ynglŷn â'r Porth i Gleifion

Trwy ddefnyddio'r Porth i Gleifion, gallwch weld, didoli a rheoli eich llythyrau apwyntiad gyda BIPAB yn gyflym ac yn effeithlon. Byddwch yn helpu i arbed arian i'r GIG ac yn lleihau amseroedd gweinyddu oherwydd, yn hytrach nag anfon llythyr ffisegol atoch yn y post, sy'n gallu cymryd diwrnodau ac sy'n costio mwy, gallwch weld llythyr digidol yn gynt. O ganlyniad, bydd gan staff fynediad at eich ymatebion a'ch manylion ar unwaith.

I dderbyn llythyr digidol, y cyfan y mae'n rhaid i chi ei wneud yw sicrhau bod gennym rif ffôn symudol cyfredol i chi. Os byddwch yn derbyn llythyr yn ddigidol, caiff ei anfon trwy neges destun ddiogel oddi wrth 'BIPAB'. Y cyfan y mae'n rhaid i chi ei wneud yw clicio ar y ddolen a dilyn y cyfarwyddiadau i weld y llythyr. Ni fydd ffôn symudol safonol yn dangos

llythyrau digidol, bydd arnoch angen ffôn clyfar i weld ac i ddefnyddio'r Porth i Gleifion.

Peidiwch â phoeni, os na fyddwch yn defnyddio'r ddolen o fewn 24 awr neu os cewch anawsterau gyda'r Porth i Gleifion, caiff y llythyr ei bostio, gan sicrhau y byddwch yn ei dderbyn.

## 3.0 Manteision a Nodweddion defnyddio'r Porth i Gleifion

- Gallwch weld eich llythyr ar eich ffôn clyfar yn gynt trwy ddilyn y cyfarwyddiadau sydd ar y sgrin. Rhowch y PIN pedwar digid unigryw a'ch dyddiad geni i mewn er mwyn mynd i'r Porth i Gleifion lle gallwch weld eich llythyr. Unwaith y byddwch wedi cael mynediad at y Porth i Gleifion, byddwch yn cael yr opsiwn o gofrestru gyda chyfeiriad e-bost a chyfrinair.
- Trwy gofrestru ar gyfer eich cyfrif Porth i Gleifion eich hun, gallwch weld pob un o'ch llythyrau ysbyty a anfonwyd trwy'r Porth i Gleifion a gwybodaeth am apwyntiadau, am ddwy flynedd ar ôl eich apwyntiad.
- Gallwch ganslo neu ofyn am aildrefnu eich apwyntiad yn hawdd trwy'r Porth i Gleifion, heb yr angen i ffonio'r ysbyty. Bydd hyn ar gael pan fyddwch yn derbyn llythyr cadarnhau apwyntiad ar gyfer eich ymweliad wyneb yn wyneb â'r ysbyty.
  Bydd aelod o staff yn cysylltu â chi i aildrefnu eich apwyntiad. Sylwch y gallai hyn effeithio ar eich amser aros oherwydd argaeledd slotiau yn y clinig.
- Gallwch ychwanegu'r apwyntiad yn awtomatig at galendr eich ffôn gyda hysbysiad atgoffa, gan leihau'r tebygolrwydd o golli eich apwyntiad.
- Gallwch gynllunio eich taith i'r ysbyty gyda map traffig mewn amser real (byw).
- Gallwch anfon copi e-bost o'ch llythyr apwyntiad yn hawdd ac yn ddiogel yn uniongyrchol at unigolyn arall, megis cyflogwr fel prawf eich bod wedi mynychu.
- Byddwch yn cael mynediad at offer a gwasanaethau NHS Choices er mwyn helpu i reoli cyflyrau ac i gynorthwyo ffyrdd o fyw iachach

# 3.0 Defnyddio'r Porth i Gleifion

## 3.1 A oes unrhyw gymorth ar gael i mi ddefnyddio'r Porth i Gleifion?

Oes, mae Nodwedd 'Mynd ar Daith' a fydd yn mynd â chi drwy'r swyddogaethau sydd ar gael, cam wrth gam. Mae honno ar gael i chi bob amser. I gael mynediad at y daith, cliciwch ar y botwm yn y gornel uchaf ar y dde ar y porth i gleifion.

## 3.2 A oes angen y rhyngrwyd/WiFi arnaf i weld fy llythyr?

I gael mynediad at y Porth i Gleifion, bydd arnoch angen mynediad i'r rhyngrwyd, yn yr un modd ag y byddech ar gyfer unrhyw wefan arall. Bydd angen i chi gysylltu â'ch WiFi neu i ddefnyddio data symudol (efallai y bydd costau data'n berthnasol). Os nad oes gennych gysylltiad â'r rhyngrwyd ac na allwch gael mynediad trwy'r ddolen, caiff llythyr papur ei anfon atoch ar ôl 24 awr o dderbyn y ddolen ddigidol.

## 3.3 Sut alla' i weld fy llythyr?

Bydd eich llythyr ar gael pan fyddwch yn mewngofnodi i'r porth am y tro cyntaf. Os bydd angen i chi weld eich llythyr, gallwch ddod o hyd iddo yn yr adran trosolwg trwy ddewis 'gweld llythyr'.

## 3.4 A oes modd i mi roi gwybod i sefydliad y GIG os na allaf fynychu fy apwyntiad trwy'r porth i gleifion?

Oes, mae'r swyddogaeth hon ar gael gan ddibynnu ar y math o apwyntiad yr ydych yn ei fynychu. Gallwch ddewis canslo neu ofyn am aildrefnu eich apwyntiad pan fyddwch yn derbyn eich llythyrau cadarnhau; bydd ein timau trefnu apwyntiadau'n cael gwybod a byddant yn cysylltu â chi'n ddiweddarach er mwyn aildrefnu. Mae'n bwysig nodi y gallai hyn effeithio ar eich amser aros. Gallwch ofyn am aildrefnu rhai apwyntiadau hyd at dri diwrnod cyn dyddiad yr apwyntiad.

## Sut mae modd i mi ychwanegu'r apwyntiad at fy nghalendr digidol?

Byddwch yn cael yr opsiwn o ychwanegu'r apwyntiad at eich calendr. Defnyddiwch yr opsiwn 'Ychwanegu at y Calendr' o dan y crynodeb o'r apwyntiad.

## 3.5 Sut ydw i'n argraffu llythyr?

Pan fyddwch yn edrych ar eich llythyr apwyntiad, byddwch yn gweld 'ARGRAFFU' ar y brig. Y cyfan y mae'n rhaid i chi ei wneud yw clicio ar yr

opsiwn a bydd hyn yn caniatáu i chi argraffu copi o'ch llythyr sy'n gysylltiedig â'ch dyfais.

## 3.6 Sut alla' i e-bostio copi ataf i fy hun neu dderbynnydd arall?

Pan fyddwch yn edrych ar eich llythyr apwyntiad, byddwch yn gweld 'E-BOSTIO' ar y brig. Y cyfan y mae'n rhaid i chi ei wneud yw clicio ar yr opsiwn a rhoi'r cyfeiriad e-bost i mewn yr hoffech rannu copi o'r llythyr gydag e. Bydd gofyn i chi roi cyfrinair; bydd angen y cyfrinair hwn ar y derbynnydd cyn bo modd iddo agor yr e-bost.

## 3.7 Sut ydw i'n cael mynediad at fanylion fy apwyntiad o'r trosolwg apwyntiadau?

I weld manylion eich apwyntiad, gallwch glicio ar 'TROSOLWG'.

## 3.8 Beth yw lleoliad?

Bydd y tab lleoliad yn dangos i chi ar fap sut i gyrraedd y cyfeiriad sydd wedi'i storio ar eich cofnod cleifion i leoliad eich apwyntiad ysbyty gan ddefnyddio Google Maps. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer gwybodaeth mewn amser real ac wedi'i diweddaru am draffig pan fyddwch wedi cysylltu â'r rhyngrwyd.

## 3.9 Beth yw'r tab 'Cyn i chi Fynychu'?

Yma gallwch gael mynediad at yr holl ddogfennau hanfodol y byddai'ch darparwr gofal yn hoffi i chi eu darllen cyn eich apwyntiad. Gallwch hefyd weld eich llythyr apwyntiad.

## 3.10 Beth yw GIG Cymru?

Mae NHS Information yn wefan genedlaethol sy'n darparu gwybodaeth am holl wasanaethau'r GIG yng Nghymru.

## 3.11 Sut alla' i gael mynediad at GIG Cymru?

Trwy glicio ar eicon NHS Information, cewch eich ailgyfeirio at wefan GIG Cymru.

## 3.12 Am ba mor hir ar ôl fy apwyntiad fyddaf yn gallu gweld y llythyr?

Os ydych wedi cofrestru ar y Porth i Gleifion, bydd eich llythyrau apwyntiad yn parhau i fod ar gael i chi eu gweld am ddwy flynedd. Os nad ydych wedi cofrestru, bydd eich llythyr ar gael i chi edrych arno hyd at ddeg diwrnod ar ôl dyddiad eich apwyntiad.

### 3.13 Pryd fydd llythyr ffisegol yn cael ei anfon allan os na fyddaf yn edrych ar fy llythyr digidol?

Os nad ydych wedi edrych ar eich llythyr digidol o fewn 24 awr, caiff llythyr ffisegol ei anfon atoch.

### 3.14 Rydw i wedi colli'r ddolen i'r porth i gleifion; sut fyddaf yn cofio dyddiad fy apwyntiad?

Os nad ydych wedi argraffu, lawrlwytho neu wedi anfon copi o'ch llythyr ffisegol at eich cyfeiriad cartref, bydd angen i chi gysylltu â'ch darparwr gofal a fydd yn gallu cadarnhau manylion eich apwyntiad.

Os ydych wedi cofrestru, byddwch yn gallu gweld yr holl ohebiaeth y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i hanfon atoch trwy fewngofnodi i'r porth.

### 3.15 Rydw i'n derbyn llythyrau gan fwy nag un Bwrdd Iechyd, a fydd angen mwy nag un cyfrif i weld fy llythyrau gan Fyrddau Iechyd gwahanol?

Bydd, os ydych yn derbyn llythyrau digidol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) a'ch bod wedi cofrestru ar gyfer ein Porth i Gleifion, mae'ch cyfrif yn benodol i ni.

Os ydych yn derbyn llythyrau digidol gan Fwrdd Iechyd arall, mae angen i chi gofrestru ar gyfer eu porth nhw ar wahân os ydynt yn defnyddio un.

Ni fyddwch yn gweld ein llythyrau ni ar borth Bwrdd Iechyd arall, ac ni fydd eu llythyrau nhw ar gael i'w gweld ar eich porth BIPAB.

## 4.0 Cofrestru ar gyfer y Porth i Gleifion

### 4.1 Sut ydw i'n cofrestru ar gyfer y porth i gleifion?

Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi i'ch llythyr digidol, byddwch yn gweld y swyddogaeth 'COFRESTRU' yn y gornel uchaf ar y dde. Bydd gofyn i chi greu enw defnyddiwr (eich cyfeiriad e-bost) a chyfrinair. Sylwch fod angen enw defnyddiwr gwahanol (cyfeiriad e-bost) ar gyfer pob claf. Ni ellir cysylltu dau gyfrif cleifion ar yr un cyfeiriad e-bost.

### 4.2 Beth yw'r manteision sydd ynghlwm wrth gofrestru ar gyfer y porth i gleifion?

Os byddwch yn cofrestru ar gyfer y porth i gleifion, byddwch yn gallu gweld eich holl ohebiaeth mewn un lle, yn hytrach na mewngofnodi ar

wahân ar gyfer pob gohebiaeth. Mae'n caniatáu i chi greu llyfrgell o ddogfennau'n ymwneud â mynychu eich apwyntiadau. Bydd dogfennau ar gael ar y porth am ddwy flynedd ar ôl yr apwyntiad, os byddwch am gadw'r dogfennau y tu hwnt i'r cyfnod hwn, gallwch lawrlwytho'r dogfennau a'u cadw ar eich dyfais.

### 4.3 A oes rhaid i mi gofrestru ar gyfer y porth i gleifion?

Nac oes, os nad ydych am gofrestru, byddwch yn dal i dderbyn gwahoddiadau unigol i weld eich llythyr digidol.

### 4.4 Ble alla' i weld fy apwyntiadau hanesyddol pan fyddaf wedi cofrestru?

Mae'r rhain ar gael i'w gweld trwy ddewis 'APWYNTIADAU' yn y gornel uchaf ar y dde:

- Mae'r tab apwyntiadau sydd i ddod yn dangos pob un o'ch apwyntiadau yn y dyfodol
- Mae'r tab blaenorol yn dangos pob un o'ch apwyntiadau yn y gorffennol y dylech fod wedi'u mynychu
- Mae'r tab wedi canslo yn dangos pob un o'ch apwyntiadau, yn y gorffennol a'r dyfodol sydd wedi cael eu canslo, naill ai gennych chi neu gan eich darparwr gofal.

### 4.5 Beth yw'r sgrin hafan?

Fel claf cofrestredig, os nad oes gennych unrhyw ohebiaeth heb ei darllen, byddwch yn glanio ar y dudalen hafan pan fyddwch yn mewngofnodi am y tro cyntaf.

## 5.0 Diogelwch

### 5.1 Pa mor ddiogel yw'r porth i gleifion?

Mae URL (*Uniform Resource Locator*) yn gyfeiriad gwe unigryw sy'n manylu ar leoliad penodol adnodd ar y rhyngrwyd. Yn ei hanfod, hwn yw'r dynodwr unigryw ar gyfer tudalen we, ffeil, adnoddau ar-lein arall, gan ganiatáu i ddefnyddwyr gael mynediad ato.

Caiff URL ei greu ar gyfer pob gwahoddiad i'r porth; mae'r URL hwn yn ddiogel ac wedi'i amgryptio. Yna, caiff URL bach ei aseinio i'r URL sy'n addas ar gyfer negeseuon testun a ffonau clyfar. Mae'r URL bach yn eich gwahoddiad ac mae'n benodol i'ch darparwr gofal. Mae'r gwahoddiad i weld yr URL bach yn gofyn i chi weld eich gohebiaeth yn electronig.

Unwaith y caiff ei gyrchu, bydd yr URL bach yn eich ailgyfeirio at URL y porth lle bydd y dynodwr sydd wedi'i amgryptio i ddadgriptio a'i ddefnyddio i gael y meysydd i gael eu harddangos at ddibenion dilysu.

Os ydych wedi cofrestru, mae'ch porth ar safle diogel.

## 5.2 Sut alla' i newid fy nghyfrinair ar y porth i gleifion?

Os ydych wedi cofrestru ar gyfer y porth i gleifion yn flaenorol a'ch bod wedi anghofio eich cyfrinair, gallwch newid eich cyfrinair trwy glicio ar 'WEDI ANGHOFIO CYFRINAIR?' ar y dudalen fewngofnodi. Os ydych eisoes yn gwybod eich cyfrinair a'ch bod wedi mewngofnodi'n llwyddiannus, gallwch newid eich cyfrinair trwy glicio ar eich enw defnyddiwr yn y gornel uchaf ar y dde ar y porth a dewis 'NEWID CYFRINAIR'.

## 5.3 Alla' i optio allan o dderbyn gwahoddiadau digidol?

Gallwch optio allan o lythyrau digidol ar unrhyw adeg trwy siarad ag aelod o staff pan fyddwch yn mynd i'ch apwyntiad neu gallwch gysylltu ar y rhif ffôn sydd ar eich llythyr ysbyty.

Os byddwch yn penderfynu derbyn llythyrau digidol yn ddiweddarach, rhowch wybod i ni.

Os byddwch yn optio allan o lythyrau digidol, byddwch yn dal yn derbyn nodiadau atgoffa am apwyntiadau trwy neges destun, os ydych yn dymuno gwneud hynny.

## 5.4 Os yw fy ffôn gan rywun arall, a yw'n bosibl iddynt weld fy llythyr?

Mae’r porth i gleifion yn cynnig lefel ychwanegol o ddiogelwch gan fod angen dilysu eich Dyddiad Geni i weld eich llythyr apwyntiad yn ogystal â'r PIN pedwar digid y byddwch yn ei dderbyn yn y neges destun.

Os ydych wedi cofrestru ar gyfer y porth i gleifion, gellir cael mynediad trwy ddefnyddio eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair unigryw. Os ydych yn tybio y gallai hwn fod wedi cael ei beryglu, gallwch newid eich cyfrinair unrhyw bryd.

## 5.5 Sut yr ymdrinnir â'm data?

Hoffem roi sicrwydd i chi fod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu'n ddiogel ac NA CHAIFF ei defnyddio at ddibenion marchnata.

Mae taflen Eich Gwybodaeth, Eich Hawliau yn esbonio pam y caiff gwybodaeth ei chasglu gan GIG Cymru a sut y gellir ei defnyddio.